Cynllun Gwers ABCh CLIC – CA3
Paratoi ar Gyfer Dysgu Gydol Oes - Arian

Amlinelliad & Gofynion

Pwnc/Teitl cyffredinol ar gyfer y wers:

Datblygu a deall swyddogaeth a phwysigrwydd arian

Cyfnod allweddol neu grŵp myfyrwyr:

CA3

Amser sydd angen

1 awr

Disgrifiad byr:

Codi ymwybyddiaeth o sut i ddefnyddio arian yn gyfrifol.

Datblygu meddwl	✓	Datblygu rhifo	✓
Datblygu cyfathrebu	✓	Gweithio gydag eraill	✓
Datblygu TGC	✓	Gwella hunan ddysgu	✓

Cysylltiad i Fframwaith ABCh APADGOS ar gyfer rai 7 i 19 oed yng Nghymru

Themâu: Paratoi ar Gyfer Dysgu Gydol Oes

Canlyniad dysgu penodol bwriadol:
Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

» gysidro eu ffynhonnell bresennol o incwm ariannol
» cysidro sut i gyllido at y cyfnod byr a chyfnod hir

Ac i ddeall
» sut i wneud barn a phenderfyniadau economaidd effeithiol

Offer, adnoddau a'r paratoi sydd yn rhaid gwneud:

Cyfleusterau TG
Papur A4 ar gyfer taflen wybodaeth
Papur A3 ar gyfer poster

Cynllun Gwers ABCh CLIC – CA3
Paratoi ar Gyfer Dysgu Gydol Oes - Arian

Cynllun Gwers

Dull

Cychwyn Gwers: (5 munud)

» Rhannwch fyfyrwyr i mewn i grwpiau a rhoi darn o bapur siart fflip A1 i bob grŵp. Gofynnwch iddynt i ysgrifennu cymaint o eiriau bosib sydd yn ymwneud ag arian ar ddarn o bapur. Gofynnwch i'r grwpiau arddangos a bwydo'n ôl eu hatebion ar ôl 5 munud. Mae'r grŵp gyda'r mwyafrif o eiriau yn ennill.

» *Arian, cardiau credyd, cardiau debyd, pwrs, waled, cadw mi gei, banciau, cymdeithas adeiladu, pay pal, siec, Dow Jones, y farchnad stoc, cyfrifon cynilo, arian pen-blwydd, cerdyn anrheg, arian gwobr, ayb.*

Cyflwyniad: (10 munud)

Trafodaeth dosbarth yn ymwneud â'r canlynol:

- ◊ Sut ydych chi'n cael eich arian?
- ◊ Sut ydych chi'n gwario eich arian?
- ◊ Sut ydych chi'n cynilo eich arian?

» Gofynnwch i'r myfyrwyr ysgrifennu eu hatebion ar y daflen waith isod
Fy Materion Ariannol

Gweithgaredd: (20 munud)

Defnyddiwch adran Arian CLIC http://www.cliconline.co.uk/cym/gwybodaeth/arian/ a chwblhau'r atebion ar y daflen waith isod: Fy Materion Ariannol

Mewn grwpiau: (20 munud)

» Rhannwch y dosbarth i mewn i bedwar grŵp a rhoi darn o bapur siart fflip ac ysgrifbin i bob un. Dywedwch wrthynt fod pob grŵp wedi cael £1000 i fynd â'r grŵp cyfan ar benwythnos o wyliau. Gofynnwch iddynt i gynllunio beth maen nhw am ei wneud a sut maent am wario'r arian. Gallent ddefnyddio'r rhyngrwyd i ymchwilio'r trip. Rhaid dangos costau'r trip a chadw i'r cyllid. Yr enillwyr fydd y tîm gyda'r trip fwyaf gwreiddiol a'r un sydd yn cadw o fewn y cyllid (10 munud)

» Gofynnwch i bob grŵp adrodd yn ôl ar y canlyniadau (10 munud)

» Athro i benderfynu ar enillwyr

Cyflawni: (5 munud)

» Crynodi'r prif bwyntiau fod gan fyfyrwyr fynediad i arian a dewis o sut i'w ddefnyddio'n gyfrifol. Mae cyllidebu arian yn golygu fod gan fyfyrwyr fwy o benderfyniadau dros faint o arian sydd ganddynt a beth maen nhw eisiau ei brynu

Awgrymiadau ac adnoddau ychwanegol:

Adran CLIC http://www.cliconline.co.uk/cym/gwybodaeth/arian/

Cynllun Gwers ABCh CLIC – CA3
Paratoi ar Gyfer Dysgu Gydol Oes - Arian

Fy Materion Ariannol

Defnyddiwch yr adran http://www.cliconline.co.uk/cym/gwybodaeth/arian/ i edrych ar faint o arian rydych yn ei gael a beth gall wneud gydag ef. Defnyddiwch yr adnodd hwn i ysgrifennu eich atebion.

1. Fy arian

Beth ydy arian poced?

.....

O ble mae fy arian yn dod?

.....

Sut ydw i'n cynilo fy arian?

.....

Pam ddylwn i gynilo fy arian?

.....

2. Fy nghyllideb

Beth ydy cyllidebu?

.....

Cynllun Gwers ABCh CLIC – CA3
Paratoi ar Gyfer Dysgu Gydol Oes - Arian

Beth ydy cyllidebu tymor byr?

.....

Beth ydy cyllidebu tymor hir?

.....

3. Beth ydy dyled?

Beth ydy dyled?

.....

Pwy gall helpu os ydych chi mewn dyled?

.....

4. Beth ydy banciau a chymdeithasau adeiladu?

Pam rhoi fy arian mewn banc?

.....

.....

Cynllun Gwers ABCh CLIC – CA3
Paratoi ar Gyfer Dysgu Gydol Oes - Arian

5. Os byddwn yn cadw fy arian...
Gweithiwch allan faint gallwch safio.
Gwnewch lun o beth fyddech yn prynu yn y golofn ddiwethaf.

Mewn diwrnod bydda gen i...

Gallwn i brynu...

.....

.....

Mewn wythnos bydda gen i...

Gallwn i brynu...

.....

.....

Mewn mis bydda gen i..

Gallwn i brynu...

.....

.....

Mewn blwyddyn bydda gen i...

Gallwn i brynu...

.....

.....